O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2894 (Cy. 276)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside i Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Plough Lane i Gyfnewidfa Ewlo), Sir y Fflint (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *11 Tachwedd 2013*

*Yn dod i rym* *19 Tachwedd 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer—Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau—Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside i Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Plough Lane i Gyfnewidfa Ewlo), Sir y Fflint (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffyrdd yr A55 a'r A494 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Tachwedd 2013.

***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

i) Y darn cyfan o ddolen allanol Ewlo ar Gefnffyrdd yr A55/A494 wrth Gyfnewidfa Ewlo sy'n ymestyn yn glocwedd o'r A55 tua'r gorllewin hyd at yr A494 tua'r dwyrain.

ii) Y darn cyfan o slipffordd gysylltu tua'r gorllewin Cefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Ewlo.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbytffyrdd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill hyd at ddiwedd trwyniad slipffordd yr A55 tuag at Gonwy a hyd at ddechrau'r cyfyngiad un lôn wrth Gyffordd 34 yr A55/A494, Cyfnewidfa Ewlo.

ii) Y darnau hynny o gerbytffyrdd tua'r dwyrain Cefnffyrdd yr A55/A494 sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti wrth Gyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside ar Gefnffordd yr A55 hyd at y trwyniad ar ddiwedd ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494, Cyfnewidfa Parc Dewi Sant.

iii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain ar Gefnffordd yr A494 o Alltami.

iv) Y darnau hynny o gerbytffyrdd tua'r gorllewin Cefnffyrdd yr A494/A55 sy'n ymestyn o'r trwyniad ar ddiwedd y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Plough Lane hyd at y trwyniad wrth

ddechrau'r ffordd ymadael i'r gwasanaethau wrth Gyfnewidfa Ewlo.

v) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

vi) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 i'r gorllewin o Gyfnewidfa Ewlo sy'n cysylltu â cherbytffordd unigol yr A494.